



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



# Marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc dan 25 oed, Cymru, 2013- 2022

Fersiwn 1.0



diogelwch dŵr  
Cymru  
water safety  
Wales



accidents don't have to happen



## Cynnwys

Prif bwyntiau: marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr.....	3
Cefndir .....	3
Stori rhiant .....	4
Mesur y data.....	6
Ffynonellau data.....	6
Dadansoddi data .....	6
Cryfderau a chyfyngiadau .....	6
Cryfderau.....	6
Cyfyngiadau .....	7
Canfyddiadau.....	7
Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr yn ôl blwyddyn, tymor a diwrnod y digwyddiad.....	8
Blwyddyn.....	8
Tymor .....	9
Diwrnod.....	10
Canfyddiadau: Person.....	10
Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr yn ôl oedran a rhyw.....	10
Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr a chyfraniad alcohol a chyffuriau .....	11
Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr a'r math o weithgaredd yn ystod y digwyddiad.....	11
Canfyddiadau: Lle.....	12
Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr yn ôl lleoliad digwyddiad a lleoliad preswyllo .....	12
Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr yn ôl math o leoliad.....	12
Casgliadau .....	13
Geirfa .....	14
Cyfeiriadau .....	14
Atodiad A: Enghreifftiau o weithgareddau atal boddi a diogelwch dŵr ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.....	15

## Prif bwyntiau: marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr

1. Roedd 62 o farwolaethau anfwriadol yn gysylltiedig â dŵr yng Nghymru ymhlith plant a phobl ifanc dan 25 oed rhwng 2013 a 2022.
2. Digwyddodd bron i hanner y marwolaethau yn ystod Mehefin, Gorffennaf ac Awst, a dydd Sul oedd y diwrnod mwyaf cyffredin.
3. Roedd 79% o'r plant a'r bobl ifanc yn fechgyn a dynion.
4. Digwyddodd dros hanner y marwolaethau yn y grŵp oedran 18-24; roedd gorgynrychiolaeth yn y grŵp oedran hwn o gymharu â maint y boblogaeth.
5. Nodwyd presenoldeb cyffuriau neu alcohol mewn bron i hanner y marwolaethau yn y grŵp oedran 18-24 oed.
6. Roedd bron i hanner y plant a'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lle nad oeddent wedi bwriadu mynd i mewn i'r dŵr pan ddigwyddodd y digwyddiad angheuol.
7. Digwyddodd traean o'r marwolaethau mewn afon a digwyddodd traean ar yr arfordir, y lan neu'r traeth.
8. Digwyddodd dros hanner y marwolaethau mewn pump allan o 22 o awdurdodau lleol.
9. Mewn marwolaethau yn ymwneud â'r grŵp oedran dan 18 oed a oedd yn drigolion o Gymru, roedd y mwyafrif (94%) yn byw yn yr un awdurdod lleol lle ddigwyddodd y digwyddiad.

## Cefndir

Nod yr adroddiad hwn yw helpu i lywio gwaith gweithwyr proffesiynol yn y maes diogelwch dŵr yng Nghymru er mwyn atal marwolaethau cysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Mae marwolaeth plentyn neu berson ifanc yn cael effaith ddinistriol ac yn newid bywyd teuluoedd a'r gymuned ehangach. Boddi yw'r ail achos mwyaf cyffredin o farwolaethau o anafiadau anfwriadol mewn plant o dan 18 oed yng Nghymru, ar ôl marwolaethau cysylltiedig â thrafnidiaeth<sup>1</sup>. Nododd y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant, [Diogelwch Dŵr Cymru](#) a Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) bum marwolaeth plant o dan 18 oed o fodd yn 2022. Roedd hyn yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol, a arweiniodd at weithio mewn partneriaeth i lunio'r adroddiad hwn.

Cyhoeddodd y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yr adolygiad [Themtig o farwolaethau plant a phobl ifanc drwy fodd](#) yn 2016 a gwnaeth gyfres o argymhellion. Mae cynnydd da wedi'i wneud yn llawer o'r argymhellion gan gynnwys sefydlu fforwm Cymru gyfan ar gyfer diogelwch dŵr. Fe wnaeth grŵp Diogelwch Dŵr presennol ehangu i Diogelwch Dŵr Cymru sy'n cynnwys tua 40 o sefydliadau. Datblygodd Diogelwch Dŵr [Cymru Strategaeth Atal Boddi Cymru](#) (2020-2026) ac mae nifer o enghreifftiau o weithgareddau atal boddi a diogelwch dŵr wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc yng Nghymru (Dolen i restr WSW o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc).

## Stori rhiant

Fe gollodd Carli Newell ei mab Zac Thomas, a oedd yn 11 oed, yn haf 2022. Meddai Carli:

'Fel mam 36 oed i ddau o fechgyn, rydw i wedi byw yn Sir Benfro, Gorllewin Cymru, gydol f'oes ac mae gen i swydd fel newyddiadurwraig i bapur newydd lleol ar hyn o bryd.

Fin nos ar 1af Gorffennaf 2022, roedd Zac, gyda'i frawd mawr, ei gefnder a bachgen lleol arall, yn chwarae ar y cae pêl-droed yn Angle. Ar ôl hebrwng eu ffrind adref, sy'n byw yn agos at y traeth, fe benderfynodd y bechgyn eistedd ar y creigiau a gwyllo'r haul yn machlud. Doedden nhw ddim yn bwriadu mynd i mewn i'r dŵr, a doedden nhw heb roi gwybod i unrhyw un cyn mentro i'r traeth. Rhyw fymryn ar ôl 9 o'r gloch, daeth ton annisgwyl ac ysgubo Zac, ei frawd a'i gefnder i mewn i'r dŵr. Yn ffodus, llwyddodd ei frawd a'i gefnder i ddringo i fyny i greigiau gerllaw. Gan synhwyro bod Zac mewn trafferthion, dywedodd ei frawd mawr wrth y cefnder i redeg i'r traeth i chwilio am gymorth. Yn ddi-oed, mentrodd ei frawd yn ôl i'r dŵr, gan nofio tuag at Zac a dweud wrtho am afael yn ei droed. Gyda'i gilydd, gwnaethon nhw nofio tuag at y creigiau tan, wrth i'w frawd estyn am graig, daeth ton rymus arall a'u gwahanu, gan dynnu Zac ymhellach allan i'r dŵr, lle cafodd ei ddal mewn trobwll. Er gwaethaf cydymdrechion nifer o weithwyr meddygol proffesiynol, aelodau o'r cyhoedd a'r gwasanaethau brys sylweddol, ni ddaeth Zac erioed ato'i hun a bu farw o'i anafiadau yn yr ysbyty ar 2il Gorffennaf.

Mae marwolaeth drychinebus ac annisgwyl Zac wedi peri dioddefaint annisgrifiadwy i'n teulu, gan rwygo calon y rheini a oedd yn ei adnabod a'i garu. Yn sgil y newyddion am farwolaeth Zac, roedd y gymuned gyfan llawn gofid. Flwyddyn ymlaen, mae effaith marwolaeth Zac dal i'w theimlo yn ein cymuned.



**Fodd bynnag, mae elusen wedi'i sefydlu er ei anrhydedd o'r enw [Forever 11](#), sydd yno'n benodol i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr ymhlith plant ac unigolion ifanc. Mae gan bawb a oedd yn adnabod Zac atgofion annwyl ohono, gyda nifer o ornestau coffa'n cael eu cynnal mewn chwaraeon roedd yn eu caru, sef traddodiad a fydd yn para am flynyddoedd i ddod.**

Roedd gan Zac bersonoliaeth heintus; doniol, digywilydd, craff, caredig a hynod wrol. Er nad oedd yn rhyw dal iawn, roedd yn rhoi'r argraff ei fod yn fwy, gan ddenu pobl tuag ato.

Mewn gwlad sydd wedi'i bendithio â thraethau, baeau, harbws, morlynnoedd a dyfroedd mewndirol ffantastig, ni allwn ni orbwysleisio arwyddocâd addysg a diogelwch dŵr o ran y camau priodol i'w cymryd mewn argyfwng.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

Mae'r ystadegau diweddaraf ynglŷn â boddi damweiniol yng Nghymru'n cyfleu darlun tywyll, yn benodol ar gyfer plant ac unigolion ifanc, yn enwedig bechgyn. Mae'n dorcalonnus gweld nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru mewn blynyddoedd diweddar. Yn amlwg, gellir gwneud mwy i ostwng y cyfraddau hyn a diogelu ein plant wrth iddyn nhw gael hwyl yn y dŵr a'i barchu. Rydw i'n cefnogi'r adroddiad hwn ac yn annog pawb i ddarllen ei dystiolaeth yn ofalus ac ystyried beth mwy y gallan nhw ei wneud i helpu plant a phobl ifanc i fwynhau'r dŵr yn ddiogel.'

## Mesur y data

### Ffynonellau data

Cafwyd data o'r Gronfa Ddata Digwyddiadau Dŵr (WAID) a'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant (CDRP). Mae WAID yn casglu data ar y we, gan gasglu data am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr o amrywiaeth eang o ffynonellau yn rhanbarth chwilio ac achub y DU ar gyfer pob oedran. Gellir dod o hyd i ddisgrifiad manylach o'r system yn [www.nationalwatersafety.org.uk/waid](http://www.nationalwatersafety.org.uk/waid). Mae CDRP yn casglu gwybodaeth am farwolaethau plant dan 18 oed, mae'n cynnwys yr holl farwolaethau (neu ddigwyddiadau sy'n arwain at farwolaeth) sy'n digwydd yng Nghymru, a marwolaethau plant sy'n byw yng Nghymru sy'n marw y tu allan i Gymru. Gellir dod o hyd i ddisgrifiad manylach yn <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-adolygu-marwolaethau-plant1/adroddiadau-cymraeg/adolygiad-thematig-o-farwolaethau-plant-a-phobl-ifanc-drwy-foddi/>. Cafodd data rhwng cronfeydd data WAID a CDRP eu croesgyfeirio a'u glanhau ar gyfer plant o dan 18 oed.

### Dadansoddi data

Meini prawf cynhwysiant: marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl o dan 25 oed rhwng 1 Ionawr 2013 a 31 Rhagfyr 2022 lle digwyddodd y digwyddiad a arweiniodd at farwolaeth yng Nghymru (neu digwyddodd y tu allan i Gymru mewn plant o dan 18 oed).

Roedd y prif ddadansoddiad o ddata yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar farwolaethau anfwriadol ('damweiniol' neu naturiol) cysylltiedig â dŵr a ddigwyddodd yng Nghymru rhwng 2013 a 2022 a disgrifiwyd y nodweddion o ran amser, person a lle. Lle y bo'n briodol, cyfrifwyd nifer cymedrig (cyfartaledd) yr achosion a'r gwyrriad safonol. Disgwylir bod nifer o fewn un gwyrriad safonol uwchben neu islaw'r cymedr dwy ran o dair o'r amser. Mae hyn yn mesur a oes yna gyfrifiadau neu dueddiadau o bryder.

Nid oedd modd cyfrifo cyfraddau gan nad oedd yr enwadur yn hysbys gan nad oedd rhai o'r plant a'r bobl ifanc yn byw yng Nghymru. Roedd poblogaeth flynyddol gyfartalog gymharol cyfran y marwolaethau ym mhob grŵp oedran o'i gymharu â chyfran y plant a phobl ifanc ym mhob grŵp yn y boblogaeth yn defnyddio data poblogaeth Cymru fel mesur procsi, er fe nodir nad oedd yr holl rai a fu farw yn byw yng Nghymru. Cafwyd disgrifiad byr o farwolaethau bwriadol cysylltiedig â dŵr, a marwolaethau plant sy'n drigolion o Gymru a ddigwyddodd y tu allan i Gymru.

### Cryfderau a chyfyngiadau

#### Cryfderau

- Defnyddiwyd data o ddwy ffynhonnell wahanol, CDRP a WAID, ar gyfer marwolaethau o dan 18 oed, a oedd yn golygu bod modd croesgyfeirio data a glanhau data ar gyfer y grŵp oedran hwn.
- Mae CDRP a WAID yn gofrestrfeydd cenedlaethol sy'n seiliedig ar boblogaeth.

## Cyfyngiadau


- Nid yw CDRP yn cynnwys data ar blant a phobl ifanc 18 oed neu drosodd, felly nid oedd yn bosibl croesgyfeirio'r data ar gyfer y grŵp oedran 18-24 oed.
- Roedd data ar grŵp ethnig ond ar gael ar gyfer plant o dan 18 oed (drwy CDRP) ond roedd tua 50% yn anghyflawn felly nid oedd yn bosibl ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.
- Nid oedd data am ardal breswyl ar gael ar gyfer y grŵp oedran 18-24 oed.
- Nid oedd yn bosibl cyfrifo cyfradd marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr.
- Roedd nifer gymharol fach o farwolaethau, felly mae angen bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau o'r data. Gall newidiadau mewn niferoedd bach oherwydd amrywiadau naturiol arwain at newidiadau canran mawr felly gallant ymddangos yn fwy arwyddocaol nag ydynt mewn gwirionedd.

## Canfyddiadau

Roedd 86 o farwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc dan 25 oed a ddigwyddodd yng Nghymru rhwng 2013 a 2022. Roedd 62 o farwolaethau yn anfwriadol ('damweiniol' neu naturiol) ac roedd 24 naill ai'n fwriadol (amheuaeth o hunanladdiad neu wedi'u hachosi'n fwriadol) neu'n anhysbys (ffig 1). Digwyddodd llai na phum marwolaeth anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant dan 18 oed o Gymru y tu allan i Gymru yn ystod yr un cyfnod o ddeng mlynedd. Nid yw'r ffigur hwn yn hysbys ar gyfer y grŵp oedran 18-24 oed.

Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y 62 o farwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr mewn plant a phobl ifanc a ddigwyddodd yng Nghymru, gyda chanfyddiadau'n cael eu cyflwyno fesul amser, person a lle.

Ffig 1. Cyfran y rhai nad ydynt yn anfwriadol ('damweiniol' neu naturiol), yn fwriadol (amheuaeth o hunanladdiad neu a achoswyd yn fwriadol) a marwolaethau anhysbys sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc, Cymru, 2013-22. (Cynhyrchwyd gan CDRP, gan ddefnyddio data CDRP a WAID).




## Canfyddiadau: Amser

### Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr yn ôl blwyddyn, tymor a diwrnod y digwyddiad Blwyddyn

Roedd rhwng tair a naw marwolaeth y flwyddyn yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd mewn plant a phobl ifanc dan 25 oed (ffig 2). Digwyddodd y nifer isaf o farwolaethau yn 2020 sef tair, a digwyddodd y nifer uchaf o farwolaethau yn 2016 lle bu naw. Mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr sy'n cael eu cofnodi bob blwyddyn yn fach a gall y data amrywio dros amser, felly dylid dehongli nrhyw newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn ofalus.

Ar gyfer plant o dan 18 oed (heb eu dangos ar wahân), roedd rhwng un a phum marwolaeth y flwyddyn yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd. Fe ddigwyddodd y nifer isaf o farwolaethau yn 2017 sef un farwolaeth, a digwyddodd y nifer uchaf o farwolaethau yn 2022 lle bu pump.

Ffig 2. Nifer marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc, Cymru, 2013-22, yn ôl blwyddyn y digwyddiad. (Cynhyrchwyd gan CDRP, gan ddefnyddio data CDRP a WAID).



Gwriad cymedrig a safonol: Nifer cymedrig y marwolaethau y flwyddyn dros y cyfnod o 10 mlynedd ymhlith plant a phobl ifanc o dan 25 oed oedd chwech, ac roedd y gwriad safonol yn ddau. Roedd y tair marwolaeth yn 2020 y tu allan i un gwriad safonol islaw'r cymedr. Roedd y naw farwolaeth yn 2016 y tu allan i un gwriad safonol uwchben y cymedr. Ym mhob blwyddyn arall, roedd y nifer o fewn un gwriad safonol. Disgwylir y byddai'r rhif y tu allan i un gwriad safonol o'r cymedr tua thraean o'r amser, felly byddai'r amrywiad mewn niferoedd yn ôl y disgwyl.




Nifer cymedrig marwolaethau y flwyddyn dros y cyfnod o 10 mlynedd ymhlith plant o dan 18 oed oedd tair y flwyddyn, a'r gwriad safonol oedd un. Roedd yr un farwolaeth yn 2017 y tu allan i un gwriad safonol islaw'r cymedr. Roedd y pum marwolaeth yn 2022 y tu allan i un gwriad safonol uwchlaw'r cymedr. Er y byddai disgwyl y byddai'r rhif y tu allan i un gwriad safonol o'r cymedr tua thraean o'r amser, bydd yn dal i fod yn bwysig monitro hyn yn y dyfodol i benderfynu a oes tuedd at i fyny.

## Tymor

Digwyddodd bron i hanner (29 allan o 62, 47%) o'r holl farwolaethau yn ystod misoedd yr haf (Mehefin i Awst) (ffig 3).

Ffigur 3. Nifer marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc, Cymru, 2013-22, yn ôl tymor y digwyddiad. (Cynhyrchwyd gan CDRP, gan ddefnyddio data CDRP a WAID).




## Diwrnod

Digwyddodd marwolaethau yn fwyaf cyffredin ar ddydd Sul (ffig 4).

Gwriad cymedrig a safonol: Nifer cymedrig y marwolaethau bob dydd oedd naw. Roedd tri allan o saith diwrnod yr wythnos y tu allan i un amrywiad safonol o'r cymedr sy'n fwy na'r disgwyl. Roedd dydd Sul y tu allan i un gwriad safonol uwchben y cymedr. Fodd bynnag, byddai disgwyl uchafbwynt ar y penwythnos.

Ffigur 4. Nifer marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr mewn plant a phobl ifanc, Cymru, 2013-22, yn ôl diwrnod y digwyddiad. (Cynhyrchwyd gan CDRP, gan ddefnyddio CDRP a data WAID).



## Canfyddiadau: Person


### Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr yn ôl oedran a rhyw

Roedd y mwyafrif o'r 62 marwolaeth yn fechgyn a dynion, a oedd yn cyfrif am 49 (79%) o farwolaethau.

Roedd dros hanner (36 allan o 62, 58%) (ffig 5) y plant a'r bobl ifanc yn y grŵp oedran 18-24 oed, er bod cyfran y bobl ifanc yn y grŵp oedran hwn yn cyfrif am lai na thraean o'r boblogaeth flynyddol gyfartalog (2013-22) o blant a phobl ifanc 0-24 oed.<sup>2</sup> Os disgwylir bod cyfran y marwolaethau ym mhob grŵp oedran yn debyg i gyfran y plant a phobl ifanc ym mhob grŵp oedran yn y boblogaeth flynyddol gyfartalog, cafodd y grŵp oedran 18-24 oed ei orgynrychioli.

Roedd bron chwarter y plant a'r bobl ifanc (15 allan o 62, 24%) yn y grŵp oedran 12-17 oed. Byddai disgwyl hyn pe bai cyfran y marwolaethau yn y grŵp oedran hwn yn debyg i'r gyfran yn y boblogaeth flynyddol gyfartalog, gan fod y grŵp oedran hwn yn cyfrif am bron i chwarter poblogaeth gyfartalog flynyddol (2013-22) plant a phobl ifanc 0-24 oed.<sup>2</sup> Nid oedd plant yn y grŵp oedran 0-4 oed a'r grŵp oedran 5-11 oed yn cael eu cynrychioli'n ddigonol gan fod y ddau grŵp yn cynrychioli llai nag 20% o'r marwolaethau ond roeddent yn cyfrif am bron i hanner y boblogaeth flynyddol ar gyfartaledd (2023-22).<sup>2</sup>

Ffigur 5. Cyfran y marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr ymysg plant a phobl ifanc, Cymru, 2013-22, yn ôl grŵp oedran. (Cynhyrchwyd gan CDRP, gan ddefnyddio data CDRP a WAID).



### Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr a chyfraniad alcohol a chyffuriau


Nodwyd presenoldeb alcohol, cyffuriau neu gyfuniad o alcohol a chyffuriau mewn 17 allan o 62 o blant a phobl ifanc. Roedd pob un ohonynt yn y grŵp oedran 18-24 (17 allan o 36, 47%) ac ni nodwyd presenoldeb alcohol a chyffuriau mewn plant o dan 18 oed. Ni nodwyd presenoldeb alcohol na chyffuriau gan unrhyw oruchwylwyr plant ifanc. Nid oedd yn bosibl penderfynu i ba raddau y cyfrannodd alcohol a chyffuriau at y marwolaethau lle nodwyd alcohol a/neu gyffuriau.

### Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr a'r math o weithgaredd yn ystod y digwyddiad

Roedd sawl math gwahanol o weithgaredd wedi'u grwpio i weld a oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi bwriadu mynd i mewn i'r dŵr yn ystod y digwyddiad angheuol. Roedd gweithgareddau lle'r oedd plant a phobl ifanc wedi bwriadu mynd i mewn i'r dŵr yn cynnwys chwarae dŵr, nofio ac

ymdrochi. Roedd gweithgareddau lle nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi bwriadu mynd i mewn i'r dŵr yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud â chychod neu gerbydau eraill a syrthio i mewn i ddŵr neu'n agos at ddŵr. Nid oedd bron i hanner (27 allan o 62, 44%) (ffig 6) y plant a'r bobl ifanc wedi bwriadu mynd i mewn i'r dŵr yn ystod y digwyddiad angheuol.

Ffigur 6. Cyfran y marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc, Cymru, 2013-22, yn ôl math o weithgaredd. (Cynhyrchwyd gan CDRP, gan ddefnyddio data CDRP a WAID).



## Canfyddiadau: Lle

### Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr yn ôl lleoliad digwyddiad a lleoliad preswyllo

Digwyddodd dros hanner (33 allan o 62, 53%) o'r digwyddiadau angheuol anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr mewn pum ardal awdurdod lleol: Sir Benfro (10), Gwynedd (saith), Conwy (chwech) Powys (pump) a Bro Morgannwg (pump). Roedd llai na phum digwyddiad o farwolaeth ym mhob un o'r 17 ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru.


Roedd gwybodaeth am leoliad preswyllo ar gael ar gyfer plant o dan 18 oed yn unig. Roedd wyth o bob 26 o blant o dan 18 oed (31%) yn breswylwyr o'r tu allan i Gymru. Roedd mwyafrif (94%) o'r 18 plentyn a oedd yn byw yng Nghymru yn byw yn yr un awdurdod lleol lle digwyddodd y digwyddiad.

### Marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr yn ôl math o leoliad

Digwyddodd dros draean o'r marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr mewn afon (22 allan o 62), digwyddodd traean ar yr arfordir, y lan, neu'r traeth (21 allan o 62), a digwyddodd un o bob 10 mewn baddon, jacuzzi neu dwba twym/dwb poeth (chwech allan o 62) (ffig 2). Digwyddodd 13

marwolaeth mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys pyllau, llynnoedd, cronfeydd dŵr, chwareli, dociau, pyllau nofio neu ar y môr.

Ffigur 7. Nifer marwolaethau anfwriadol sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc, Cymru, 2013-22, yn ôl math o leoliad. (Cynhyrchwyd gan CDRP, gan ddefnyddio data CDRP a WAID).



## Casgliadau

Roedd 86 o farwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr yng Nghymru ymhlith plant a phobl ifanc dan 25 oed rhwng 2013 a 2022; Roedd 62 ohonynt yn anfwriadol. Yn achos y marwolaethau anfwriadol, digwyddodd bron i hanner (47%) y marwolaethau yn ystod Mehefin, Gorffennaf ac Awst, a dydd Sul oedd y diwrnod mwyaf cyffredin i hyn ddigwydd. Roedd 79% o'r plant a'r bobl ifanc yn fechgyn a dynion. Digwyddodd dros hanner (58%) y marwolaethau yn y grŵp oedran 18-24 oed, er bod cyfran y bobl ifanc yn y grŵp oedran hwn yn cyfrif am lai na thraean o boblogaeth plant a phobl ifanc 0-24 oed, felly roedd y grŵp oedran hwn yn cael ei orgynrychioli. Nodwyd presenoldeb cyffuriau neu alcohol mewn bron i hanner (47%) y marwolaethau yn y grŵp oedran 18-24 oed. Roedd bron i hanner y plant a'r bobl ifanc (44%) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lle nad oeddent wedi bwriadu mynd i mewn i'r dŵr pan ddigwyddodd y digwyddiad angheuol. Digwyddodd traean o'r marwolaethau mewn afon a digwyddodd traean ar yr arfordir, y lan neu'r traeth a digwyddodd dros hanner y marwolaethau mewn pump allan o 22 awdurdod lleol.

Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol y maes diogelwch dŵr er mwyn llywio eu gwaith atal er mwyn lleihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc.



## Geirfa

**Anfwriadol** – yn cyfeirio at farwolaethau 'damweiniol' neu naturiol.

**Bwriadol** – yn cyfeirio at hunanladdiad a achoswyd yn fwriadol neu amheuaeth o hunanladdiad.

**Marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr** - Mae marwolaeth sy'n gysylltiedig â dŵr yn cyfeirio at bob marwolaeth mewn dŵr, ar ddŵr neu'n agos at ddŵr Mae hyn yn cynnwys boddi a syrthio i mewn i ddŵr neu gerllaw dŵr.

**Tymhorau** – Haf (Mehefin, Gorffennaf, Awst), Gwanwyn (Mawrth, Ebrill, Mai), Hydref (Medi, Hydref, Tachwedd), Gaeaf (Rhagfyr, Ionawr, Chwefror).

**Cymedr** – cyfartaledd y set ddata.

**Gwriad safonol** – mesur cryno o gyfanswm yr amrywiad mewn set o werthoedd o'r cymedr.

**Poblogaeth flynyddol gyfartalog** – nifer y plant a'r bobl ifanc ym mhoblogaeth Cymru ym mhob grŵp oedran rhwng 2013 a 2022 (roedd ffigur 2022 yn defnyddio 2021 fel procsi) wedi'i rannu â deg.

## Cyfeiriadau

1. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Patrymau a thueddiadau marwolaethau plant yng Nghymru, 2011-2020. 2022 [cyrchwyd 16 Mehefin 2023]. Ar gael yn: <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-adolygu-marwolaethau-plant1/adroddiadau-cymraeg/patrymau-a-thueddiadau-marwolaethau-plant-yng-nghymru-2011-2020/>
2. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nomis – Official census and labour market statistics [cyrchwyd 26 Mehefin 2023]. Ar gael yn: <https://www.nomisweb.co.uk>

## Atodiad A: Enghreifftiau o weithgareddau atal boddi a diogelwch dŵr ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru

### Nofio Cymru – Nofio Ysgol a Dysgu Nofio

Mae Dysgu Nofio Cymru yn llwybr di-dor graddol sy'n dechrau â phrofiad cyntaf baban yn y dŵr trwodd i nofwyr medrus sydd â'r holl sgiliau sydd eu hangen i fwynhau gweithgareddau yn y dŵr gydol oes ac sy'n arwain at genedl iachach. Llythrennedd corfforol a sgiliau medrus yn y dŵr yw sylfaen Dysgu Nofio Cymru, gyda sgiliau'n cynyddu wrth i'r rheini sy'n cymryd rhan symud trwy'r Tonnau. Mae yna hefyd Ddyfarniadau Water Competence Cymru, sef cyfres o ddyfarniadau sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr, technegau goroesi a hunan-achub. Mae rhyw 55,000 o blant yn cymryd rhan mewn gwersi nofio bob wythnos yng Nghymru (mae'r ffigur hwn yn codi a gostwng trwy gydol y flwyddyn).

Mae Nofio Ysgol yn ffurfioli methodoleg a safonau cenedlaethol ar gyfer addysgu nofio i blant ledled Cymru. Dysgu sgiliau medrus yn y dŵr, diogelwch dŵr, 'Dysgu trwy Chwarae' a datblygu Llythrennedd Corfforol yn yr amgylchedd dŵr ydy sylfeini Nofio Ysgol. Dylai gwersi gynnwys gemau a gweithgareddau sy'n hwyl yn y pwll, a dylid eu haddasu i helpu pob plentyn i gyflawni ei botensial. Mynychodd oddeutu 37,000 o blant sesiynau nofio ysgolion ym mlwyddyn academaidd 2021/2022.

### Llythyr blynyddol am ddiogelwch dŵr i brifathrawon

Bob blwyddyn, mae Nofio Cymru, Diogelwch Dŵr Cymru a'r RNLI yn anfon llythyr at ryw 2,000 o ysgolion a phrifathrawon yng Nghymru cyn gwyliau'r haf, gan bwysleisio pwysigrwydd rhannu addysg diogelwch dŵr â'u disgyblion a'u cyfeirio at wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael.

### Cod Diogelwch Dŵr

Set syml o negeseuon cytunedig ynglŷn â diogelwch dŵr ar gyfer ieuenctid sy'n canolbwyntio ar bedwar pwynt achub bywyd:

- Stopiwch a meddwl: Ydy hwn yn lle diogel i nofio ac ydych chi'n gwybod y peryglon?
- Arhoswch gyda'ch gilydd: Ewch gyda rhywun arall bob amser
- Arnofiwch: Os y byddwch chi'n mynd i drafferthion yn y dŵr, cofiwch arnofio i fyw nes eich bod yn teimlo'n ddigyffro
- Ffoniwch 999 neu 112: Os y byddwch chi'n gweld rhywun arall mewn trafferthion yn y dŵr

Mae'r negeseuon hyn yn llunio craidd sesiynau addysg diogelwch dŵr sy'n cael eu darparu i filoedd o blant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau ieuenctid ledled Cymru bob blwyddyn.

### Bathodyn Diogelwch Dŵr Scouts Cymru

Rhaglen addysg pum wythnos ar gyfer Scouts, sy'n cynnwys pob Cod Diogelwch Dŵr ac sy'n cael ei darparu gan arweinwyr scouts neu ar y cyd â gwirfoddolwyr o Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub. Unwaith y bydd plant wedi llwyddo ar y rhaglen, byddan nhw'n cael Bathodyn

Diogelwch Dŵr Scouts Cymru/ RNLI swyddogol.

### Staywise Cymru

Platfform dysgu dwyieithog am ddim ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 18 oed ydy StayWise Cymru. Mae StayWise Cymru yn dwyn ynghyd adnoddau addysg gwasanaethau brys a sefydliadau golau glas a fwriedir i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. Mae'r wefan yn cynnig fideos, dalenni gweithgareddau a chynlluniau gwersi am ddim i helpu addysgwyr i addysgu pobl ifanc am gyngor a allai achub bywyd o fewn meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm. Gall athrawon hefyd osod gwaith o'r wefan fel rhan o gynllun dysgu o bell i rieni a gofalwyr ei ddilyn. Mae StayWise Cymru hefyd yn cynnig adnoddau i deuluoedd eu defnyddio.

### Swim Safe Cymru

Gweithgaredd diogelwch dŵr difyr ac am ddim i blant ydy Nofio Diogel, wedi'i greu gan Swim England a'r RNLI. Mae'r gweithgaredd yn cael ei ddarparu ar y cyd â Nofio Cymru ac mae'n digwydd yn yr haf mewn lleoliadau yng Nghymru. Mae plant yn mwynhau sesiwn nofio strwythuredig sy'n hwyll mewn dewis o leoliadau dŵr agored – ac yn dysgu popeth am sut i aros yn ddiogel.

Achubwyr bywydau a hyfforddwyr cymwysedig sy'n rhedeg y sesiynau 60 munud, ac mae'n cynnwys cyngor ar ddiogelwch dŵr gan achubwyr bywydau cymwysedig ar y tir, hyd at 30 munud o hyfforddiant yn y dŵr gyda hyfforddwyr cymwysedig a'r holl offer cywir ar gyfer nofio yn yr awyr agored.

### Cymdeithas Achub Bywyd o'r Môr Cymru – rhaglenni plantos a phobl ifanc

Mae Cymdeithas Achub Bywyd o'r Môr Cymru (SLSAW) yn hybu addysg diogelwch dŵr, llesiant a ffordd iach o fyw trwy chwaraeon traeth a dŵr yng Nghymru. Cymdeithas wirfoddol o 33 o glybiau a 3,500 o aelodau ledled Cymru, gydag oedran aelodau'n amrywio o saith i 97 oed.

Mae SLSAW yn darparu addysg diogelwch dŵr trwy amrywiaeth o ddyfarniadau ar gyfer pobl ifanc - plantos saith oed trwedd i'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Achubwr Bywyd ar y Traeth ar gyfer y rheini dros 16 oed. Addysgir diogelwch dŵr, ymwybyddiaeth o'r traeth, cymorth cyntaf a chynnal bywyd ar draws pob grŵp oedran. Mae 120 o hyfforddwyr-aseswyr a dros 800 o helpwyr gwirfoddol yn darparu hyn.

### Elusen Forever11

Mae teuluoedd y mae boddi wedi effeithio arnyn nhw'n gwneud gwaith diogelwch dŵr hynod ledled Cymru. Sefydlwyd elusen Forever11 yn Sir Benfro yn sgil marwolaeth drist Zac Thompson, 11 oed, yn Sir Benfro ym mis Gorffennaf 2022. Gweledigaeth yr elusen yw cael gwared ag achosion o foddï trwy addysgu pobl ynglŷn â diogelwch dŵr, hybu achub bywydau trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a gweithdai a darparu grantiau i sefydliadau sy'n gweithio ar ddiogelwch dŵr.

### Is-grŵp Addysg Diogelwch Dŵr Cymru

Mae Is-grŵp Addysg Diogelwch Dŵr Cymru, sydd ag aelodau o'r Gymdeithas Frenhinol Achub Bywydau, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, Nofio Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub





GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn gweithio i greu cyfres o asedau addysg cyson, gan gynnwys cyflwyniad mewn cyfarfodydd boreol ysgolion cynradd (babanod a disgyblion iau), y gall pob aelod o Ddiogelwch Dŵr Cymru a'r cyhoedd ehangach eu defnyddio. Mae'r grŵp hefyd yn creu llwybr cynnydd ac adnoddau atodol ar gyfer y Cwricwlwm er Rhagoriaeth ac mae'n cefnogi gwaith eirioli a lobio Llywodraeth Cymru ynglŷn â phwysigrwydd addysg nofio a diogelwch dŵr mewn ysgolion. Mae'r grŵp hefyd yn hybu pwysigrwydd addysg i gael profiad o ddiogelwch dŵr mewn amgylcheddau awyr agored.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

Gweithio gyda'n gilydd  
i greu Cymru iachach

Working together  
for a healthier Wales

ISBN: 978-1-83766-197-8